# DYWEDWCH WRTHAI...

Yn y stori “Ga’i Hanes Draig?” mae sawl math o ddreigiau. Pe byddech chi yn cael draig, sut fath o ddraig fyddai?



https://www.jackiemorris.co.uk/tell-me-a-dragon-ga-i-hanes-draig/

Byddwch yn greadigol, dychmygwch eich draig unigryw chi.
Ei edrychiad? Ble byddai’n byw? A fyddai’n anadlu a chwythu tân, neu unrhywbeth hollol wahanol?



Yn union fel y dreigiau yn y stori....mae pob un ohonom yn unigryw ac arbennig. Mae gan bob un ohonom ein hunaniaeth a’n personoliaeth ein hunain....mae hyd yn oed ein olion bysedd yn wahanol i rhai pawb arall.

Gwnewch restr o bopeth sydd yn eich creu CHI!

- lliw llygaid
- lliw gwallt
- bachgen/merch
- pethau gallech ei wneud
- y pethau sy’n bwysig i chi
- lle gafoch chi eich geni
- lle ydych chi’n byw rwan

Gofynnwch i ffrind neu aelod o’r teulu beth sydd
yn eich gwneud chi yn arbennig iddynt....




https://youtu.be/7eQ7D-A00Bw

***Mae’r Beibl yn dweud bod bob un ohonom yn arbennig i Dduw***
***Dw i wedi cerfio dy enw ar gledrau fy nwylo!***
***Eseia 49:16***

Mae draig arbennig yma yng Nghymru...


Y Ddraig Goch

Mae hanes y Ddraig Goch i'w chlywed trwy gydol hanes Cymru, mewn straeon a chwedlau wedi eu hadrodd o un genhedlaeth i'r nesaf..........

.......chwedlau am frenhinoedd, cestyll a rhyfeloedd.







Allwch chi ddarganfod pam mae'r Ddraig Goch yn cynrychioli Cymru?

Beth allwch chi ddarganfod am y Ddraig Goch...chwiliwch ar y wê gan ddefnyddio'r geiriau allweddol “Draig Goch/Welsh dragon’ a “Baner Cymru/Welsh flag’.



https://www.visitwales.com/info/history-heritage-and-traditions/dragon-spirit-legend-welsh-dragon

https://www.nationaltrust.org.uk/craflwyn-and-beddgelert/features/a-tale-of-two-dragons